wPecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Dyddiad: | Dydd Iau, 3 Ionawr 2013 |
| | | Rhif Union: | 01824 706204 |
| | | ebost: | dcc_admindenbighshire.gov.com.uk |

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 11 IONAWR 2013** am **10.00 am** yn **CONFERENCE ROOM, TY NANT, PRESTATYN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 30ain Tachwedd 2012 (copi'n amgaeëdig).

**5 MYNYCHU CYFARFODYDD**

Cydnabod presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**6 HYFFORDDIANT COD YMDDYGIAD** (Tudalennau 11 - 16)

Derbyn adroddiad (copi'n amgaeëdig) gan y Dirprwy Swyddog Monitro ar gyflwyno hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn 2012.

**7 FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Derbyn adroddiad llafar gan y Dirprwy Swyddog Monitro yn rhoi diweddariad o gyfarfod diweddar Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 7fed Ionawr 2013.

**8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi ei drefnu ar gyfer 10am ar ddydd Gwener 22ain Chwefror 2013, i'w gynnal yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

## RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraffau 12 a 13) o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf yn cael ei datgelu.

**9 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000** (Tudalennau 17 - 18)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi'n amgaeëdig) yn rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**AELODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Y Parch. Wayne Roberts, Ian Trigger (Cadeirydd), Ms Margaret Medley a/ac Mrs Paula White

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:
Y Cynghorydd David E Jones

Cynghorwyr Sir:
Y Cynghorydd Bill Cowie
Y Cynghorydd Colin Hughes

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Gwener, 30 Tachwedd 2012 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Ms. Margaret Medley, Mr. Wayne Roberts, Mr. Ian Trigger a Mrs. Paula White ynghyd â'r Cynghorwyr Bill Cowie a Colin Hughes

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Swyddog Monitro (GW), y Dirprwy Swyddog Monitro (LJ) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## CROESO

Croesawodd y Swyddog Monitro bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso penodol i Mr. Ian Trigger a Mr. Wayne Roberts a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Safonau. Ymddiheurodd hefyd y bu angen newid ystafelloedd cyfarfod ar fyr rybudd oherwydd gwaith y Tîm Ymateb i Lifogydd yn Ystafell Gynhadledd 1a.

## 1 PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU

Yn unol â'r rheoliadau perthnasol, gofynnwyd am fynegiant o ddiddordeb gan aelodau annibynnol am swydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau. Derbyniwyd mynegiant o ddiddordeb gan Mr. Wayne Roberts a Mr. Ian Trigger ac roedd eu CV wedi eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor ymlaen llaw. Gan na fynegodd neb arall ddiddordeb rhoddwyd y mater i'r bleidlais, ac fe –

***BENDERFYNWYD*** *penodi Mr. Ian Trigger yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.*

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cefnogaeth g an ddweud ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda hwy.

## 2 PENODI IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau aelodau annibynnol i'w penodi i swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau. Dywedodd y Swyddog Monitro bod mynegiant o ddiddordeb wedi ei dderbyn gan Mr. Wayne Roberts. Mynegodd Ms. Margaret Medley ddiddordeb hefyd yn y penodiad ac o roddi'r mater i bleidlais, fe –

***BENDERFYNWYD*** *penodi Mr. Wayne Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau.*

Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Is-gadeirydd ar ei benodiad, ac atebodd yntau ei fod yn edrych ymlaen at gefnogi'r Cadeirydd yn ei rôl.

## 3 YMDDIHEURIADAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Bill Cowie ei ymddiheuriadau ymlaen llaw gan y byddai angen iddo adael y cyfarfod am gyfnod byr.

**4 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Gofynnodd y Cynghorydd Colin Hughes a ddylai ddatgan buddiant mewn unrhyw o'r eitemau ar y rhaglen gan ei fod hefyd yn Gynghorydd Tref. Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd unrhyw faterion ar y rhaglen a oedd yn gofyn am ddatgan buddiant yn y swydd honno.

Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na rhagfarnus.

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**CYFLWYNIAD**

Ar y pwynt hwn, cymerodd y Swyddog Monitro y cyfle i groesawu i'r cyfarfod cyn-gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Mr. Clive Halliday yr oedd ei gyfnod ef yn y swydd wedi dod i ben yn ddiweddar. Ar ran swyddogion ac aelodau'r pwyllgor, diolchodd y Swyddog Monitro yn ffurfiol i Mr Halliday am ei wasanaeth disglair fel Cadeirydd ac am ei gefnogaeth, eu haelioni a'i gwrteisi. Roedd gan aelodau blaenorol a phresennol barch mawr tuag ato a chyflwynodd y Swyddog Monitro rodd bychan iddo i gydnabod ei wasanaeth gwerthfawr. Diolchodd Mr Halliday i bawb am eu caredigrwydd a soniodd yn benodol am y gefnogaeth a dderbyniodd gan y Swyddog Monitro presennol a'r cyn Swyddog Monitro. Dymunodd yn dda iawn i'r Pwyllgor Safonau at y dyfodol. Mynegodd y Cadeirydd ddiolchgarwch mawr pawb tuag at yr holl waith a wnaed gan Mr. Halliday yn ystod ei gyfnod ar y pwyllgor.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod y cyn Is-gadeirydd, Mr. Geraint Francis Roberts hefyd wedi ymddeol ond nad oedd wedi medru mynychu'r cyfarfod. Talodd y swyddogion a'r aelodau deyrnged i'r gwasanaeth gwerthfawr a'r cyfraniad a wnaed gan Mr Roberts gan ddymuno cyfleu ei gwerthfawrogiad dwfn iddo. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'r teimladau hyn yn cael eu cyfleu i Mr Roberts, ynghyd â rhodd a cherdyn yn dangos eu gwerthfawrogiad.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Medi 2012.

Tudalen 6 – Eitem Rhif 5, Presenoldeb mewn Cyfarfodydd – Fel mater o esboniad, gofynnodd y Cynghorydd David Jones am gael ychwanegu'r gair 'cadarnhaol' at 'effeithiolrwydd y cadeirydd' i adlewyrchu cadeirio rhagorol y cyfarfod.

Tudalen 7 – Eitem Rhif 7, Digwyddiadau Hyfforddi Cod Ymarfer – dywedodd y Cynghorydd David Jones nad oedd wedi cytuno mynychu'r sesiynau hyfforddi ar 8 a 22 Hydref a gofynnodd am gael dileu'r cyfeiriad hwnnw. Cadarnhaodd iddo fynychu'r tri sesiwn hyfforddi arall ond na fyddai nawr yn debygol o fynychu'r pedwerydd sesiwn ar 5 Rhagfyr. Er budd aelodau newydd, esboniodd y Swyddog

Monitro y gofynnwyd i gynrychiolydd y Pwyllgor Safonau fynychu pob digwyddiad hyfforddi i ddangos eu bod yn cefnogi'r rhaglen hyfforddi. Byddai hefyd yn ddiweddariad defnyddiol i'r aelodau. Dywedodd Mr Wayne Roberts ei fod yn barod i fynychu sesiynau 5 a 12 Rhagfyr a chynigiodd y Cadeirydd fynychu'r sesiwn ar 20 Rhagfyr.

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *yn amodol ar yr uchod, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2012 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir, a*

(b) *cytuno a chydnabod newidiadau ym mhresenoldeb aelodau yn y digwyddiadau hyfforddi fel y manylwyd uchod.*

**7 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nid oedd unrhyw adroddiadau o aelodau'n mynychu cyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned gan aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Cytunwyd yn flaenorol bod amserlen o gyfarfodydd cynghorau tref a chymuned ar gael i'r pwyllgor. Nid oedd pob aelod wedi derbyn yr wybodaeth honno a chadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n cywiro'r sefyllfa.

**8 CANLLAWIAU DIWYGIEDIG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn hysbysu'r aelodau o gyhoeddiad canllawiau diwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer aelodau etholedig mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad. Roedd cysylltiad i'r canllawiau diwygiedig llawn ar gael i'r pwyllgor cyn y cyfarfod.

Ymhellach at ganllawiau'r Ombwdsmon ar gyfer aelodau a gyhoeddwyd yn Ebrill 2010, roedd canllawiau diwygiedig nawr wedi eu cyhoeddi mewn dwy ddogfen ar wahân ar gyfer (1) Aelodau Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a (2) Aelodau Cynghorau Cymuned. Y rhesymeg y tu cefn i gyhoeddi canllawiau ar wahân ar gyfer Cynghorwyr Cymuned oedd er mwyn rhoi mwy o eglurder ac enghreifftiau a oedd yn benodol yn berthnasol iddynt hwy. Bu i'r Swyddog Monitro grynhoi cynnwys y canllawiau diwygiedig, a oedd yn cyfeirio at -

- Y drefn newydd ar gyfer delio â chwynion, lle byddai'r Ombwdsmon yn cyfeirio materion nad oedd yn ystyried eu harchwilio at Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau i'w harchwilio'n lleol
- Trefniadau datrys lleol (megis y Protocol Hunan-reoli a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ddinbych) a fyddai'n berthnasol i brif gynghorau yn y lle cyntaf ond y gellid ei ryddhau i gynghorwyr cymuned maes o law, a
- Newidiadau yn sylwedd y canllawiau yn ymwneud â thrin eraill â pharch ac ystyriaeth – y trothwy y tu hwnt i'r hwn y byddai'r Ombwdsmon yn archwilio cwynion yn deillio o ddadleuon gwleidyddol yn gorfod cymryd i ystyriaeth y ffaith

bod angen i aelodau fod yn ‘fwy croendew’ wrth ddelio â sylwadau â tharddiad gwleidyddol.

O ran y newidiadau i archwilio cwynion â tharddiad gwleidyddol, dywedodd y Swyddog Monitro bod y canllawiau diwygiedig wedi cymryd i ystyriaeth achos yn ddiweddar yn yr Uchel Lys a oedd wedi gwrthdroi penderfyniad Panel Dyfarnu yn ddiweddar ar sail y ffaith bod rhyddid mynegiant aelod yn denu amddiffyniad uwch pan roedd ei sylwadau yn wleidyddol o ran natur. Ymhelaethodd y Swyddog Monitro ar fanylion yr achos, a dywedodd bod Swyddogion Monitro ledled Cymru yn bryderus ynglŷn  â’r agwedd a gymerwyd gan yr Ombwdsmon gan eu bod yn creu bod cywair y canllawiau bron yn oddefgar, ac nad hynny oedd y bwriad. Codwyd y pryderon hyn gyda’r Ombwdsmon a oedd wedi cytuno ailystyried y geiriad yn yr adran benodol honno yn y canllawiau.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Swyddog Monitro am ei ddisgrifiad eglur o’r achos yn yr Uchel Lys a goblygiadau’r canllawiau diwygiedig i’r aelodau. Teimlai’r Cynghorydd David Jones, er gwaethaf yr esboniad clir, ei fod yn fater cymhleth i’w ddehongli o hyd. Holodd y Cadeirydd a fyddai’r canllawiau diwygiedig yn arwain at waith ychwanegol i’r pwyllgor. Atebodd y Swyddog Monitro nad oedd yr Ombwdsmon yn debygol o archwilio cwynion a wnaed ar lefel sirol rhwng aelodau, a fyddai yn hytrach yn cael eu trin trwy’r Protocol Hunan-reoli, a fyddai â goblygiadau i’r Pwyllgor. Meddyliai Ms. Margaret Medley y byddai cynnydd mewn achosion yn cael eu harchwilio’n lleol yn helpu gwella ymddygiad cynghorwyr.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod cynnwys canllawiau digwydiedig yr Ombwdsmon.*

## 9 PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Esboniodd y Swyddog Monitro bod Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn darparu fforwm i Swyddogion Monitro, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru drafod materion a oedd o ddiddordeb iddynt oll.

Roedd y prif bynciau a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y fforwm a gynhaliwyd ar 4 Hydref yn canolbwyntio ar -

- Ganllawiau diwygiedig yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Etholedig, gan gynnwys yr achos yn yr Uchel Lys a oedd yn gwrthdroi penderfyniad y Panel Dyfarnu (a drafodwyd dan yr eitem flaenorol ar y rhaglen) a
- Awdurdodau Gogledd Cymru yn cynnal Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan 2013 (i’w drafod dan yr eitem nesaf ar y rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro ar faterion a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru.*

## 10 CYNHADLEDD SAFONAU 2013

Adroddodd y Swyddog Monitro yn llafar ar y Gynhadledd Safonau 2013 sydd i’w chynnal ar 19 Ebrill yn Venue Cymru, Llandudno a fyddai’n rhoi cyfle i ddod â’r gymuned Safonau at ei gilydd i ddebryn hyfforddiant ac i drafod materion o

ddiddordeb cyffredin. Cynigiwyd cael is-deitl ‘Cydbwyso Hawliau a Chyfrifoldebau’ a chydlynu rhaglen i gynnwys –

- Anerchiad allweddol gan yr Ombwdsmon ar ei weithgareddau a themâu cyffredin (yn debygol o gynnwys trafodaethau ar ei ganllawiau diwygiedig)
- Cyfres o weithdai trafod ar y canlynol
    - Sut i hyrwyddo Safonau yn rhagweithiol
    - Trefniadau datrys anghydfod lleol
    - Cydberthynas Cynghorau Tref a Chymuned
    - Cyflafareddiad
    - Cynnal gwrandawiadau a chosbau
    - Gollyngiadau
    - Cofrestr buddiannau
    - Awdurdodau Pwrpas Sengl
- Gofynnid i Un Llais Cymru a’r Panel Dyfarnu ar gyfer Cymru hwyluso sesiwn
- Sesiwn llawn, lle gellid gofyn i Bwyllgorau Safonau lleol gyfrannu

Byddai manylion pellach Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan ar gael yn nes at yr amser. Yn amodol ar unrhyw gyfyngiad ar niferoedd, roedd croeso i holl aelodau’r Pwyllgor fynychu. Ystyriodd y pwyllgor bod y Gynhadledd Safonau yn gyfle cyffrous i ddysgu a rhannu syniadau a allai fod yn fuddiol iawn i aelodau wrth ymgymryd â’u dyletswyddau. Yna fe –

***BENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro ar bynciau i’w trafod yn y Gynhadledd Safonau 2013.*

## 11 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2011/2012

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn hysbysu’r aelodau i gyhoeddiad Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu ar gyfer Cymru 2011/12. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o waith y Panel Dyfarnu ac yn cynnwys crynodebau o’r achosion a’r apeliadau yr oedd y Panel wedi delio â hwy dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd cysylltiad i’r adroddiad llawn ar gael i’r pwyllgor cyn y cyfarfod.

Esboniodd y Swyddog Monitro rôl y Panel Dyfarnu a’r swyddogaethau statudol i’w hystyried -

- Adroddiadau gan yr Ombwdsmon ar yr honiadau mwyaf difrifol o dorri Cod Ymddygiad Aelodau, ac
- Apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgor Safonau ar ôl atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon.

Roedd nifer isel atgyfeiriadau yn ystod 2011/12 wedi arwain at ailbenodiad cyfyngedig gan amser aelodau profiadol i roddi profiad a sadrwydd. Hysbyswyd y pwyllgor hefyd o fath a nifer achosion a ystyriwyd gan y Panel ers iddo gychwyn yn 2002 ynghyd â’i ddarganfyddiadau a’i ganlyniadau. Roedd crynodeb o’r cosbau a bennwyd yn ôl achos a thribiwnlys apêl yn ystod y cyfnod o fis Hydref 2002 i fis Mawrth 2012 ynghlwm wrth y prif adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am ei grynodeb o adroddiad blynyddol y Panel Dyfarnu ac fe -

***BENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad gan y Swyddog Monitro ar Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2011/12.*

**12 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nododd yr Aelodau bod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi ei drefnu ar gyfer 10.00a.m. ar ddydd Gwener 11 Ionawr 2013 yn yr Ystafell Gynhadledd, Tŷ Nant, Ffordd Plas Nant, Prestatyn. Dywedodd Mrs Paula White na fyddai'n medru mynychu'r cyfarfod hwnnw a chyflwynodd ei hymddiheuriadau ymlaen llaw.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai'n datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.*

**13 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhoi trosolwg o'r cwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers 1 Ebrill 2012.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod yr adroddiad yn eitem sefydlog ar y rhaglen er mwyn hysbysu'r pwyllgor o gwynion presennol a rhai a oedd wedi eu cwblhau'n ddiweddar. Nid oedd yr Ombwdsmon wedi mynd ar ôl y rhan fwyaf o'r cwynion ac roedd un wedi ei thynnu'n ôl. Roedd un wedi ei chadarnhau a chafodd yr aelodau fanylion yr achos, a oedd wedi ei gyfeirio'n uniongyrchol at y Panel Dyfarnu. O ran y cwynion presennol, dywedodd y Swyddog Monitro bod yr Ombwdsmon wedi penderfynu ers hynny beidio ag archwilio dwy o'r cwynion a rhoddodd ddiweddariad ar y ddau achos arall, gan esbonio materion mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau arnynt. Ar ôl ystyried y materion, fe -

***BENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad.*

Cyn i'r cyfarfod ddod i ben, cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r aelodau am fynychu a hefyd diolchodd i'r Swyddog Monitro am ei adroddiadau a'i anerchiad clir a defnyddiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05 a.m.

**Eitem Rhif ar y Rhaglen**

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Safonau**

**ADRODDIAD GAN:** **Dirprwy Swyddog Monitro**

**DYDDIAD:** **11eg Ionawr 2013**

**PWNC:** **Hyfforddiant Cod Ymddygiad 2012**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

Rhoi i'r Aelodau drosolwg o'r hyfforddiant Cod Ymddygiad a gyflwynwyd gan y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro ar ôl etholiadau Mai 2012.

## 2 CEFNDIR

2.1 Rôl y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Aelodau a'u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad.

2.2 Mae'r Pwyllgor Safonau wedi rhoi pwyslais mawr ar ddarparu rhaglen gynhwysfawr, hygyrch o hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac mae'r Aelodau wedi cefnogi rhaglen 2012, sydd wedi ei chyflwyno gan y Swyddog Monitro mewn nifer o leoliadau, yn ystod y dydd a gyda'r nos, ledled y Sir.

2.3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi adolygiad ar y lefelau mynychu ar lefel Sir a Thref a Chymuned. Dylai'r Aelodau nodi bod nifer arwyddocaol o'n Cynghorwyr Sir hefyd yn Aelodau Tref a Chymuned a byddant wedi eu hyfforddi yn ystod hyfforddiant y Cyngor Sir. At hyn, mae rhai Aelodau wedi mynychu'r hyfforddiant Sirol a Chymunedol a gynigiwyd gan y Swyddog Monitro. Ar ôl y diwygiadau i God Ymddygiad Cynghorwyr Sir, a oedd yn gwneud mynychu hyfforddiant cod yn ystod cyfnod yn y swydd o leiaf unwaith yn orfodol, mae hyn wedi arwain at 45 allan o 47 o Gynghorwyr Sir yn mynychu sesiwn hyfforddi, sy'n gyfradd fynychu o bron i 96%. Mae trafodaethau gan Swyddogion Monitro yng Nghymru ar hyfforddiant Cod yn awgrymu bod hyn yn raddfa lwyddiant ragorol.

2.4 Mae'r adolygiad hwn wedi bod yn ddefnyddiol i'r Swyddog Monitro o ran asesu pa Gynghorwyr Sir sydd heb eu hyfforddi (gan Gyngor Sir Ddinbych), yn ychwanegol at edrych ar gyfraddau presenoldeb ar draws y bwrdd mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yn gyffredinol.

2.5 Dylai'r Aelodau hefyd fod yn ymwybodol bod Un Llais Cymru hefyd wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi ledled Cymru ar gyfer Cynghorau Tref a

Chymuned ac nid yw eu cyfraddau mynychu hwy wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, nac unrhyw hyfforddiant sydd wedi ei gyflwyno'n fewnol gan Glercod Tref a Chymuned.

2.6 Mewn perthynas â chymharu cyfraddau mynychu ar gyfer sesiynau Tref a Chymuned, ar ôl etholiadau 2008 roedd y ffigurau mynychu ychydig yn uwch gyda chyfanswm o 80 yn mynychu. Ar gyfer y flwyddyn ddinesig hon, y cyfanswm yw 71.

2.7 Mae'r adolygiad hwn hefyd wedi bod yn ddefnyddiol o ran asesu bylchau mewn hyfforddiant mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig pwyllgorau craffu addysg ar y cod ymddygiad.

2.8 Mae tabl cyfraddau mynychu ynghlwm fel Atodiad 1.

## 3 ARGYMHELLIAD

3.1 Bod yr Aelodau'n cydnabod y cynnydd a gafwyd.

3.2 Bod yr Aelodau yn cefnogi un sesiwn arall i'w gyflwyno yn 2013 ar gyfer aelodau'r Cyngor Sir (cyfetholedig a'r sawl nas hyfforddwyd yn 2012) i gynnwys neges gref i'w hanfon at y sawl nad ydynt wedi mynychu ar lefel Cyngor Sir eleni i dderbyn cynnig hyfforddiant ymddygiad eleni, boed gan y Cyngor Sir neu mewn man arall.

3.3 Bod yr Aelodau'n cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ysgrifennu at Un Llais Cymru er mwyn canfod y lefel bresenoldeb a gafwyd ganddynt hwy er mwyn hysbysu'r Pwyllgor Safonau pa gynghorau tref neu gymuned sydd angen cymorth pellach.

3.4 Bod yr Aelodau yn ystyried unrhyw agwedd arall mewn perthynas â thargedu aelodau tref a chymuned, gan gymryd i ystyriaeth bod cyflwyno hyfforddiant yn bersonol gan swyddogion yn drwm ar adnoddau.

**Atodiad 1 HYFFORDDIANT COD YMDDYGIAD**

**ADOLYGU SESIYNAU A GYFLWYNWYD AR ÔL ETHOLIADAU 2012**

**1) Presenoldeb gan Aelodau Cyngor Sir Ddinbych**

Cyfanswm nifer Aelodau Etholedig = 47
Cyfanswm Aelodau Etholedig wedi eu hyfforddi = 45
Cyfanswm nifer Aelodau Annibynnol = 10
Cyfanswm Aelodau Annibynnol wedi eu hyfforddi = 4

| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Cyfanswm yn bresennol** |
|---|---|---|
| 9fed Mai 2012 | Neuadd y Sir, Rhuthun | 42 |
| 22ain Hydref 2012 (sesiwn gloywi) | Neuadd y Sir, Rhuthun | 12 |
| Cyfanswm Cynghorwyr Sir heb fynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad a gyflwynwyd gan CSDd | Ddim yn berthnasol | 2 |
| Cyfaswm Aelodau Annibynnol / cyfetholedig heb fynychu hyfforddiant a gyflwynwyd gan CSDd | Ddim yn berthnasol | 6 |

**2) Presenoldeb yn ôl Lleoliad mewn Sesiynau Cynghorau Tref a Chymuned (yn cynnwys Aelodau Pwyllgor Safonau a Chlercod)**

Cyfanswm Aelodau Cynghorau Cymuned = 349
Cyfanswm seddau = 377
[Roedd 28 o seddau Cynghorau Tref a Chymuned wedi aros yn wag ar ôl yr etholiadau, i'r cynghorau gyfethol]

| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Cyfanswm yn bresennol** |
|---|---|---|
| 26ain Medi 2012 | Llangollen | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| 3ydd Hydref 2012 | Corwen | 2 |
| 8fed Hydref 2012 | Y Rhyl | 8 |
| 22ain Hydref 2012 | Y Rhyl | 5 |
| 21ain Tachwedd 2012 | Llanelwy | 20 |
| 5ed Rhagfyr 2012 | Llanelwy | 6 |
| 12fed Rhagfyr 2012 | Rhuthun | 15 |
| 20fed Rhagfyr 2012 | Rhuthun | 10 |
| Cyfanswm | | 71 |

**3) Cyfraddau mynychu fesul Cyngor Tref a Chymuned (yn cynnwys Clercod)**

| **Cyngor Tref neu Gymuned** | **Nifer yn mynychu** | **Nifer yn gwisgo dwy het** |
|---|---|---|
| *Aberchwiler* | | |
| *Betws Gwerful Goch* | | |
| Bodelwyddan | | 1 |
| Bodfari | 1 | |
| *Bryneglwys* | | |
| Cefn Meiriadog | 3 | 1 |
| Clocaenog | | 1 |
| Corwen | 1 | |
| *Cyffylliog* | | |
| Cynwyd | | 1 |
| Dinbych | 11 | 3 |
| *Derwen* | | |
| Dyserth | | 1 |
| Efenechtyd | 1 | |
| *Gwyddelwern* | | |
| *Henllan* | | |
| Llanarmon yn Iâl | 1 | 1 |
| Llandegla | 4 | |
| *Llandrillo* | | |
| Llandyrnog | 5 | 1 |
| Llanelidan | 1 | 1 |
| *Llanbedr Dyffryn Clwyd* | | |
| Llanferres | 2 | |
| Llangollen | 3 | |
| *Llangynhafal* | | |
| *Llanrhaedr yng Nghinmeirch* | | |
| Llantysilio | | 1 |
| *Llanynys* | | |
| *Nantglyn* | | |
| Prestatyn | 1 | 7 |
| Rhuddlan | | 2 |
| Y Rhyl | 6 | 11 |
| Rhuthun | 10 | |

| | | |
|---|---|---|
| Llanelwy | 3 | 2 |
| Trefnant | 9 | |
| Tremeirchion Cwm & Waen | 3 | |
| CYFANSWM | 65 | 34 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 13, 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag